S. Camen

PRIS CEINIOG.

# RHODD MAM

## I'W PHLENTYN;

YN CYNNWYS

## Y CATECHISM CYNTAF I BLANT BYCHAIN,

GYDA'R

## CYFEIRIADAU A'R ADNODAU.

Gwynfyd y plant sy'n derbyn dysg,
Ac addysg yn y boreu;
Nid ant hyd ffyrdd troseddwyr ffol,
Nac i annuwiol lwybrau.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD DROS Y LLYFRWERTHWYR.

fG
891.
66
RHO

## Gras o flaen Bwyd.

CYNNORTHWYA ni, O Arglwydd, i dderbyn y drugaredd sydd ger ein bron, ynghyd a phob rhodd arall o eiddo dy ragluniaeth, trwy Iesu Grist. *Amen.*

## Un arall.

DERBYN ein diolchgarwch O Arglwydd, am y ddarpariaeth hon sydd o'n blaen, ac am yr holl drugareddau ydym yn eu derbyn oddiar dy law, drwy Iesu Grist. *Amen.*

## Gras ar ol Bwyd.

NERTHA ni, O Arglwydd, i gydnabod dy fawr ddaioni yn yr aml roddion ydym yn dderbyn oddi ar dy haelionus law: ac yn y mwynhad o honynt, drwy Iesu Grist. *Amen.*

## Un arall.

O ARGLWYDD, yr ydym yn diolch i Ti am yr hyn yr ydym yn awr wedi ei fwynhau; sancteiddia y drugaredd hon er lles i'n heneidiau, drwy Iesu Grist. *Amen.*

22666

# RHODD MAM

## I'W PHLENTYN;

YN CYNNWYS

## Y CATECHISM CYNTAF I BLANT BYCHAIN,

GYDA'R

## CYFEIRIADAU A'R ADNODAU.

891.66 RHO

Gwynfyd y plant sy'n derbyn dysg,
Ac addysg yn y boreu;
Nid ant hyd ffyrdd troseddwyr ffol,
Nac i annuwiol lwybrau.

BIBLIOTHEQUE QUIMPER DIOCESAINE

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD DROS Y LLYFRWERTHWYR.

22556

# RHODD MAM.

## PENNOD I.

*Gof.—Pwy a'ch gwnaeth chwi?*

AT.—Duw.

Psalm 119. 73. Dy ddwylaw a'm gwnaethant, ac a'm lluniasant. Job 33. 4. Ysbryd Duw a'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywiocâodd i.

*G.—Beth yw Duw?*

A.—Ysbryd.

Ioan 4. 24. Ysbryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn ysbryd a gwirionedd.

*G.—Pa sawl Duw sydd?*

A.—Un.

Deut. 6. 4 Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd. 1 Tim. 2. 5. Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.

*G.—A ydyw Duw yn dragywyddol?*

A.—Ydyw, heb ddechreu na diwedd.

Psalm 90. 2; a 55. 19. Ti ydwyt Dduw o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb.

*G.—Yn mha le y mae Duw?*

A.—Yn y nefoedd.

Job 22. 12; Psalm 123. 1. Onid ydyw Duw yn uchelder y nefoedd?

*G.—A ydyw efe yn un lle arall?*

A.—Ydyw, yn mhob man.

Jer. 23. 23, 24. A lecha un mewn dirgel-leoedd, fel nas gwelwyf fi ef? medd yr Arglwydd: onid ydwyf fi yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, medd yr Arglwydd?

*G.—A ydyw Duw yn gwybod pob peth?*

A.—Ydyw.

Ezec. 11. 5; Job 28. 24. Canys mi a wn y pethau sydd yn dyfod i'ch meddwl chwi, bob un o honynt.

*G.—A all Duw wneyd y peth a fyno?*

A.—Gall.

Job 23. 13. Ond y mae efe yn un, a phwy a'i try ef? a'r hyn y mae ei enaid ef yn ei chwennychu, efe a'i gwna.

*G.—A ydyw Duw yn gyfiawn?*

A.—Ydyw, yn gyfiawn a santaidd.

Dat. 15. 3, 4. Cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y Saint. Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac ni ogonedda dy enw? oblegid ti yn unig wyt santaidd.

*G.—A ydyw efe yn ddigyfnewid?*

A.—Ydyw, yr un fath bob amser.

Iago 1. 17. Gyda'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth.

*G.—Ai Duw bïa bob peth?*

A.—Ië, Yn y nefoedd a'r ddaear.

Deut. 10. 14; Job. 41. 11. Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ydynt eiddo yr Arglwydd dy Dduw, y ddaear hefyd a'r hyn oll sydd ynddi.

*G.—A ydyw Duw yn dda?*

A.—Ydyw, da yw Duw i bawb.

Psalm 119. 68. Da ydwyt, a daionus.



# PENNOD II.

*G.—Ai Duw a greodd bob peth?*

A.—Ië.

Esay 66. 2. Canys y pethau hyn oll a wnaeth fy llaw, a thrwof fi y mae hyn oll, medd yr Arglwydd.

*G.—Beth ydyw creu?*

A.—Gwneyd peth o ddim.

Heb. 11. 3. Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.

*G.—Ai o ddim y gwnaeth Duw bob peth?*

A.—Ië.

Psalm 33. 6, 9. Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy ysbryd ei enau ef.

*G.—A all neb arall wneyd peth o ddim?*

A.—Na all.

Job 40. 9. A oes i ti fraich fel i Dduw? neu a wnei di daranau a'th lais fel yntau? Esay 45. 18. Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, creawdydd y nefoedd, y Duw ei hun a luniodd y ddaear, ac a'i gwnaeth; efe a'i sicrhaodd hi, ni chreodd hi yn ofer, i'w phreswylio y lluniodd hi: Myfi yw'r Arglwydd, ac nid neb amgen.

*G.—O ba beth y gwnaeth efe y ddaear?*

A.—O ddim.

2 Pedr 3. 5. Canys y mae hyn yn ddiarwybod iddynt o'i gwirfodd, mai trwy air Duw yr oedd y nefoedd er ys talm, a'r ddaear yn cyd-sefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr.

*G.—O ba beth y gwnaeth efe ddyn?*

A.—O bridd y ddaear.

Gen. 2. 7. A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw.

*G.—Mewn pa faint o amser y gwnaeth efe bob peth?*

A.—Mewn chwe diwrnod.

Exod. 20. 11. O herwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r hyn oll sydd ynddynt.

*G.—Beth a wnaeth efe y seithfed dydd?*

A.—Gorphwys arno a'i santeiddio.

Gen 2. 3. A Duw a fendithiodd y seithfed dydd, ac a'i santeiddiodd ef.

*G.—A ddylem ninau wneuthur yr un modd?*

A.—Dylem.

Exod. 31. 16, 17. Am hyny cadwed meibion Israel y Sabbath, gan gynal Sabbath trwy eu cenhedlaethau, yn gyfammod tragywyddol.

## PENNOD III.

*G.—Pwy oedd y dyn cyntaf?*

A.—Adda.

1 Tim 2. 13. Canys Adda a luniwyd yn gyntaf.

*G.—Pwy oedd y wraig gyntaf?*

A.—Efa.

Gen. 3. 20. A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa; oblegid hi oedd fam pob dyn byw.



*G.—Pa sawl rhan sydd mewn dyn?*

A.—Dwy, sef corff ac enaid.

Mat. 10. 28. Ac nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corff, ac ni allant ladd yr enaid; eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddystrywio enaid a chorff yn uffern. Preg. 12. 7; 1 Cor. 6. 20. Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.

*G.—O ba beth y gwnaeth efe gorff dyn?*

A.—O bridd y ddaear.

Gen 3. 19. Canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.

*G.—Beth yw enaid dyn?*

A.—Ysbryd i fyw byth.

Preg. 3. 21. Pwy a edwyn ysbryd dyn yr hwn sydd yn esgyn i fyny, a chwythad anifail yr hwn sydd yn disgyn i waered i'r ddaear?

*G.—A oes eneidiau gan blant?*

A.—Oes, gan bawb.

1 Bren. 17. 21, 22. Ac efe a ymestynodd ar y bachgen dair gwaith, ac a lefodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O Arglwydd fy Nuw, dychweled, atolwg, enaid y bachgen hwn iddo eilwaith. A'r Arglwydd a wrandawodd ar lef Elias; ac enaid y bachgen a ddychwelodd i mewn iddo, ac efe a ddadebrodd.

*G.—Yn mha le y dodwyd Adda ac Efa wedi eu creu?*

A.—Yn ngardd Eden.

Gen. 2. 15. A'r Arglwydd Dduw a gymerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi.

*G.—A ddarfu iddynt aros yn hir yno?*

A.—Naddo, eithr Duw a'u gyrodd hwynt oddi yno.

Gen. 3. 24. Felly efe a yrodd allan y dyn, ac a osododd o'r tu dwyrain i ardd Eden, y cerubiaid, a chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd.

*G.—Am ba beth y gyrodd Duw hwynt oddi yno?*

A.—Am bechu i'w erbyn.

Gen 3. 17, 23. Hefyd wrth Adda y dywedodd, Am wrando o honot ar lais dy wraig, a bwyta o'r pren am yr hwn y gorchymynaswn i ti, gan ddywedyd, Na fwyta o hono; melldigedig fydd y ddaear o'th achos di: trwy lafur y bwytâi o honi holl ddyddiau dy einioes. Am hyny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i lafurio y ddaear, yr hon y cymerasid ef o honi. 1 Sam. 15. 23.

*G.—Beth yw pechod?*

A.—Annghyfraith.

1 Ioan 3. 4. Pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith: oblegid anngyfraith yw pechod.

*G.—Pwy a roddodd gyfraith i ddyn?*

A.—Duw.

Deut. 33. 2. Ac efe a ddaeth gyda myrddiwn o saint, a thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt.

*G.—Beth yw y drwg mwyaf?*

A.—Pechod.

Psalm 25. 11; Diar. 8. 36. Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd: canys mawr yw.



*G.—Pwy bechodd gyntaf?*

A.—Adda ac Efe.

Gen. 3. 6. A phan welodd y wraig mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, ac mai teg mewn golwg ydoedd, a'i fod yn bren dymunol i beri deall, hi a gymerth o'i ffrwyth ef, ac a fwytaodd, ac a roddes i'w gwr hefyd gyda hi, ac efe a fwytaodd.

*G.—Pwy bechodd wedi hyny?*

A.—Pawb.

Rhuf. 3. 23. Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw.

## PENNOD IV.

*G.—Pa sawl math o blant sydd?*

A.—Dau fath, sef plant da a phlant drwg.

1 Ioan 3. 10; Mat. 13. 38. Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw a phlant diafol.

*G.—Pa fath blant sydd yn cymeryd enw Duw yn ofer?*

A.—Plant Drwg.

Psalm 139. 20. Dy elynion a gymerant dy enw yn ofer.

*G.—Pwy sydd yn anufydd i'w tad a'u mam?*

A.—Plant drwg.

Diar. 30. 17. Llygad yr hwn a watwaro ei dad, ac a ddiystyro ufyddhau ei fam, a dyn cigfrain y dyffryn, a'r cywion eryrod a'i bwyty.

*G.—Pwy sydd yn dywedyd celwydd ac yn tyngu?*

A.—Plant drwg.

Diar. 19. 5. Tyst celwyddog ni bydd dieuog; a lluniwr celwyddau ni ddianc. Iago 5. 12. Eithr o flaen pob peth, fy mrodyr, na thyngwch nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llw arall; eithr bydded eich ïe chwi yn ïe, a'ch nagê yn nagê; fel na syrthioch i farnedigaeth.

*G.—A raid i bawb farw?*

A.—Rhaid.

Job 30. 23. Canys mi a wn y dygi fi i farwolaeth; ac i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw.

*G.—I ba le yr â plant drwg ar ol marw?*

A.—I uffern.

Psalm 9. 17. A'r rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a annghofiant Dduw. Psalm 11. 6. Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus; dyma ran eu phiol hwynt.

*G.—Pa fath le yw uffern?*

A.—Llyn yn llosgi o dân a brwmstan.

Dat. 21. 8. Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r puteinwyr, a'r swyngyfareddwyr, a'r eilunaddolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, yr hwn yw'r ail farwolaeth.

*G.—Pwy a ddichon waredu plant rhag myned yno?*

A.—Duw.

Esay 45. 21, 22. Ac nid oes Duw arall ond myfi; yn Dduw cyfiawn ac yn achubydd; nid oes ond myfi. Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall.



*G.—Pa fath ydyw plant da?*

A.—Rhai yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrwg.

Diar. 16. 6. Trwy drugaredd a gwirionedd y dilëir pechod; a thrwy ofn yr Arglwydd y mae ymado oddiwrth ddrwg.

*G.—Pwy sydd yn hoff o'u llyfr?*

A.—Plant da.

2 Tim. 3. 15. Ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lân.

*G.—Pwy sydd yn ufydd i'w rhïeni?*

A.—Plant da.

Luc 2. 51. Ac efe (Crist) a aeth i waered gyda hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt, (sef ei rïeni.)

*G.—A ddylech chwi oll fod yn blant da?*

A.—Dylem.

Preg. 12. 13. Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn.

*G.—I ba le yr â plant da ar ol marw?*

A.—I'r nefoedd.

Mat. 19. 14. A'r Iesu a ddywedodd, Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod ataf fi; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.

*G.—Pa fath le yw y nefoedd?*

A.—Lle gogoneddus a hyfryd.

1 Cor. 2. 9. Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.

*G.—Pwy fydd gyda ni yno?*

A.—Iesu Grist, yr angylion, a'r saint.

Heb. 12. 22—24. Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion, i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.

*G.—A fydd pechod yno?*

A.—Na fydd, na phechod, na phoen byth.

Dat. 21. 4, 27. Ac nid â i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd; ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen.

## PENNOD V.

*G.—Pwy a anfonodd Duw i achub pechaduriaid?*

A.—Iesu Grist.

Ioan 3. 17. Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.

*G.—Pwy ydyw Iesu Grist?*

A.—Duw a dyn.

Ioan 1. 14. A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tad) yn llawn gras a gwirionedd.

*G.—Pa berthynas yw efe i Dduw?*

A.—Y mae ef yn Fab Duw.

Mat. 16. 16. A Simon Petr a atebodd ac a ddywedodd, Ti yw y Crist, Mab y Duw byw.



*G.—Pa berthynas yw efe i ni?*

A.—Brawd a chyfaill goreu.

Heb. 2. 14. Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau.

*G.—Beth a wnaeth efe yn y byd?*

A.—Byw a marw drosom.

Rhuf. 5. 10. Canys os pan oeddym yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; mwy o lawer wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef.

*G.—Yn mha le y ganed Crist?*

A.—Yn Bethlehem.

Mat. 2. 1. Ac wedi geni yr Iesu yn Bethlehem Judea, yn nyddiau Herod frenin, wele, doethion a ddaethant o'r dwyrain i Jerusalem.

*G.—Pwy oedd ei fam ef?*

A.—Mair.

Luc 1. 30. 31. A dywedodd yr angel wrthi, nac ofna, Mair, canys ti a gefaist ffafr gyda Duw. Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar Fab, ac a elwi ei enw ef IESU.

*G.—Pa le y bu Iesu Grist farw?*

A.—Ar Galfaria.

Luc 23. 33. A phan ddaethant i'r lle a elwir Calfaria, yno y croeshoeliasant ef.

*G.—A gladdwyd ef?*

A.—Do, mewn bedd.

Luc 23. 53. Ac efe a'i tynodd i lawr, ac a'i hamdôdd mewn lliain main, ac a'i rhoddes mewn bedd wedi ei naddu mewn careg, yn yr hwn ni roddasid dyn erioed.

*G.—Ai yn y bedd y mae efe eto?*

A.—Nagê, efe a gyfododd.

Marc 16. 6. Ceisio yr ydych yr Iesu o Nazareth, yr hwn a groeshoeliwyd: efe a gyfododd; nid yw efe yma; wele y man y dodasant ef.

*G.—Yn mha le y mae efe yn awr?*

A.—Yn y nefoedd.

Act. 1. 11. Yr Iesu hwn, yr hwn a gymerwyd i fyny oddiwrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.

*G.—Beth yw cyflog pechod?*

A.—Marwolaeth.

Rhuf. 6. 23. Canys cyflog pechod yw marwolaeth.

*G.—A ydyw Duw yn maddeu pechod?*

A.—Ydyw.

1 Ioan 1. 9. Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder.

*G.—Er mwyn pwy y mae Duw yn maddeu?*

A.—Er mwyn Iesu Grist.

Eph. 4. 32. A byddwch gymwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.

*G.—A oes modd i ni fod yn hapus heb gael maddeu ein pechodau?*

A.—Nac oes.

Ioan 13. 8. Yr Iesu a atebodd iddo, Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyda myfi.



*G.—Yn mha le y mae Duw yn maddeu pechod?*

A.—Yn y byd hwn.

Job 36. 18. O herwydd bod digofaint, gochel rhag iddo dy gymeryd di ymaith â'i ddyrnod; yna ni'th wared iawn mawr.

## PENNOD VI.

*G.—I ba beth y gwnaed chwi?*

A.—I wasanaethu Duw.

Esay 43. 21. Y bobl hyn a luniais i mi fy hun; fy moliant a fynegant. Mat. 4. 10. Yna yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ymaith, Satan; canys ysgrifenwyd, Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi.

*G.—A ddylai plant ei wasanaethu ef?*

A.—Dylai pawb.

1 Sam. 3. 1. A'r bachgen Samuel a wasanaethodd yr Arglwydd ger bron Eli. Esay 60. 12. Canys y genedl a'r deyrnas ni'th wasanaetho di, a ddifethir; a'r cenhedloedd hyny a lwyr ddinystrir.

*G.—Pwy sydd yn rhoi pob peth i ni?*

A.—Duw sydd yn rhoddi pob peth i bawb.

Act. 17. 25. Gan ei fod ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.

*G.—Oni ddylem ni ddiolch i Dduw am bob peth?*

A.—Dylem.

Psalm 107. 8. O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion. Dan. 2. 23; a 2 Thes. 1. 3.

*G.—Am beth y dylem weddïo arno?*

A.—Am faddeuant o'n pechodau.

Hos. 14. 2. Cymerwch eiriau gyda chwi, a dychwelwch at yr Arglwydd: dywedwch wrtho, Maddeu yr holl anwiredd; derbyn ni yn ddaionus: a thalwn i ti loi ein gwefusau.

*G.—A ddylem ni weddïo am ddim arall?*

A.—Dylem, am ras i fyw yn dda, a phob peth fo arnom eisiau.

Gen. 28. 20, 21. Yna yr addunodd Jacob adduned, gan ddywedyd, Os Duw fydd gyda myfi, ac a'm ceidw yn y ffordd yma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdded, a rhoddi i mi fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo: a dychwelyd o honof mewn heddwch i dŷ fy nhad; yna y bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi. Psalm 27. 4.

*G.—A ydyw yn hawdd gan Dduw roddi i ni y peth a ofynom?*

A.—Ydyw, i bawb, heb ddannod.

Iago 1. 5. Os bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.

*G.—Yn enw pwy y dylem weddïo?*

A.—Yn enw Iesu Grist.

Ioan 16. 23, 24. Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.

*G.—Pwy sydd yn gweddïo?*

A.—Pob duwiol a weddïa.

Psalm 32. 6. Am hyn y gweddïa pob duwiol arnat ti yn yr amser y'th geffir.



## PENNOD VII

*G.—A fydd dydd barn?*

A.—Bydd.

Act. 17. 31. O herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe.

*G.—Pa bryd y bydd dydd barn?*

A.—Yn niwedd y byd.

Mat. 13. 40. Megys gan hyny y cynullir yr efrau, ac a'u llwyr-losgir yn tân; felly y bydd yn niwedd y byd hwn.

*G.—Pwy fydd y Barnwr?*

A.—Iesu Grist.

Act. 10. 42. Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw.

*G.—Pwy a gaiff eu barnu?*

A.—Pawb.

Mat. 25. 32. A chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd; ac efe a'u didola hwynt oddiwrth eu gilydd, megys y didola'r bugail y defaid oddiwrth y geifr.

*G.—A gawn ni ein barnu?*

A.—Cawn.

2 Cor. 5. 10. Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corff, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag a'i da a'i drwg.

*G.—Yn ol pa beth y bernir ni?*

A.—Yn ol ein gweithredoedd?

Dat. 20. 13. A rhoddodd y môr i fyny y meirw oedd ynddo; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwythau; a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd.

*G.—Wrth ba reol y bernir ni?*

A.—Wrth reol gair Duw.

Ioan 12. 48, a 5. 45. Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo un yn ei farnu; y gair a leferais i, hwnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf. Rhuf. 2. 12, 16.

*G.—Pa lyfr ydyw gair Duw?*

A.—Y Bibl.

2 Tim. 3. 16. Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei roddi gan ysbrydoliaeth Duw.

*G.—A ddylem ni ddysgu darllen y Bibl?*

A.—Dylem.

2 Tim. 3. 14, 15. Eithr aros di yn y pethau a ddysgaist, ac a ymddiriedwyd i ti am danynt, gan wybod gan bwy y dysgaist: ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lân, yr hon sydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yng Nghrist Iesu.

*G.—Beth ydyw edifeirwch?*

A.—Cyfnewidiad meddwl a buchedd.

Esay 55. 7. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.



*G.—Pa fath feddwl sydd genym wrth natur?*

A.—Meddwl drwg.

Gen. 6. 5. A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser.

*G.—Beth ydyw gwaith ffydd?*

A.—Credu.

Rhuf. 4. 20. Ac nid amheuodd efe addewid Duw trwy annghrediniaeth; eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw.

*G.—Beth sydd i ni gredu fel yr achuber ni?*

A.—Credu yn Iesu Grist.

Ioan 3 36. Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

*G.—A ddylem ni gredu yn Iesu Grist?*

A.—Dylai pawb.

1 Ioan 3. 23. A hwn yw ei orchymyn ef; Gredu o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist, a charu ein gilydd, megys y rhoes efe orchymyn i ni.

## PENNOD VIII.

*G.—Pa sawl gorchymyn sydd yn y gyfraith.*

A.—Deg.

Deut. 4. 13. Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfammod a orchymynodd efe i chwi i'w wneuthur, sef y dengair; ac a'u hysgrifenodd hwynt ar ddwy lech faen.

*G.—Pa rai ydynt?*

A.—Y rhai hyny a lefarodd Duw yn yr ugeinfed bennod o Exodus, gan ddywedyd,

I. Na fydded i ti dduwiau ereill ger fy mron i.

II. Na wna i ti ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r y sydd yn y ddaear isod, nac a'r sydd yn y dwfr tan y ddaear. Nac ymgryma iddynt, ac na wasanaetha hwynt; oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw, wyf Dduw eiddigus; yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casânt; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

III. Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

IV. Cofia y dydd Sabbath, i'w santeiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi ac y gwnai dy holl waith. Ond y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw; na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth. O herwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r hyn oll sydd ynddynt: ac a orphwysodd y seithfed dydd: am hyny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath, ac a'i santeiddiodd ef.

V. Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

VI. Na ladd.

VII. Na wna odineb.

VIII. Na ladrata.

IX. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.



X. Na chwennych dŷ dy gymydog, na chwennych wraig dy gymydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ŷch, na'i asyn, na dim a'r sydd eiddo dy gymydog.

*G.—Beth yw ein dyledswydd tuag at Dduw?*

A.—Ei garu ac ymddiried ynddo.

Deut. 11. 1. Câr dithau yr Arglwydd dy Dduw, a chadw ei gadwraeth ef, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau, a'i orchymynion, byth. Esay 26. 4.

*G.—Beth yw ein dyledswydd tuag at ein tad a'n mam?*

A.—Eu parchu ac ufuddhau iddynt.

Eph. 6. 1, 2. Y plant, ufyddhewch i'ch rhïeni yn yr Arglwydd: canys hyn sydd gyfiawn.

*G.—Beth yw ein dyledswydd tuag at ein cymydog?*

A.—Ei garu fel ni ein hunain.

Lef. 19. 18. Câr dy gymydog megys ti dy hun.

## PENNOD IX.

*G.—Pwy oedd Adda?*

A.—Y dyn cyntaf, a'n tad ni oll.

1 Cor. 15. 45. Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhau. Act. 17. 26. Ac efe a wnaeth o un gwaed, bob cenedl o ddynion, i breswylio ar holl wyneb y ddaear, ac a benodd yr amser rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt.

*G.—Pwy oedd Efa?*

A.—Mam pob dyn byw.

Gen. 3. 20. A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa; oblegid hi oedd fam pob dyn byw.

*G.—Pwy oedd y dyn goreu.*

A.—Iesu Grist.

Marc 7. 37. A synu a wnaethant yn anfeidrol, gan ddywedyd, Da y gwnaeth efe bob peth; y mae efe yn gwneuthur i'r byddariaid glywed, ac i'r mudion ddywedyd.

*G.—Pwy oedd wr wrth fodd calon Duw?*

A.—Dafydd.

Act. 13. 22. Cefais Ddafydd fab Jesse, gwr yn ol fy nghalon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys.

*G.—Pwy oedd y dyn doethaf?*

A.—Solomon.

1 Bren. 4. 29–31. A Duw a roddodd ddoethineb i Solomon, a deall mawr iawn, a helaethdra calon, fel y tywod sydd ar fin y môr. A doethineb Solomon oedd fwy na doethineb holl feibion y dwyrain, ac na holl ddoethineb yr Aipht.

*G.—Pwy fu fyw hwyaf?*

A.—Methusalem.

Gen. 5. 27. A holl dyddiau Methuselah oedd naw mlynedd a thriugain a naw can mlynedd: ac efe a fu farw.

*G.—Pwy oedd y merthyr cyntaf?*

A.—Abel.

Gen. 4. 8. A Chain a ddywedodd wrth Abel ei frawd; ac fel yr oeddynt hwy yn y maes, Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac a'i lladdodd ef.



*G.—Pwy werthodd Grist?*

A.—Judas.

Luc 22. 3, 4. A Satan a aeth i mewn i Judas, yr hwn a gyfenwid Iscariot, yr hwn oedd o rifedi y deuddeg. Ac efe a aeth ymaith, ac a ymddyddanodd â'r arch-offeiriaid a'r blaenoriaid, pa fodd y bradychai efe ef iddynt.

*G.—Am ba beth y gwerthodd efe ef?*

A.—Am arian.

Mat. 26. 15. Ac a ddywedodd wrthynt, Pa beth a roddwch i mi, a mi a'i traddodaf ef i chwi? a hwy a osodasant iddo ddeg ar hugain o arian.

*G.—Beth a ddaeth o hono wed'yn?*

A.—Efe a aeth ac a ymgrogodd.

Mat. 27. 5. Ac wedi iddo daflu yr arian yn y deml, efe a ymadawodd, ac a aeth ac a ymgrogodd.

*G.—Pwy wadodd Grist?*

A.—Pedr.

Marc 14. 70, 71. Ac efe a wadodd drachefn. Ac ychydig wedi, y rhai oedd yn sefyll gerllaw a ddywedasant wrth Pedr drachefn, Yn wir yr wyt ti yn un o honynt: canys Galilead wyt, a'th leferydd sydd debyg. Ond efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano.

*G.—Beth a ddaeth o hono ef wed'yn?*

A.—Efe a wylodd yn chwerw dost.

Mat. 26. 75. Ac efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw dost.

*G.—Pwy laddodd ei frawd?*

A.—Cain.

1 Ioan 3. 12. Nid fel Cain yr hwn oedd o'r drwg, ac a laddodd ei frawd.

*G.—Pwy gadwyd yn yr arch pan foddwyd y byd?*

A.—Noah a'i wraig, a'i dri mab, Sem, Cam, a Japheth, a'u tair gwraig.

Gen. 7. 13. O fewn corff y dydd hwnw y daeth Noah, a Sem, a Cham, a Japheth, meibion Noah, a gwraig Noah, a thair gwragedd ei feibion ef gyd â hwynt i'r arch.

*G.—Pwy oedd y dyn ffyddlonaf?*

A.—Abraham.

Rhuf. 4. 16. Nid yn unig i'r hwn sydd o'r ddeddf, ond hefyd i'r hwn sydd o ffydd Abraham, yr hwn yw ein tad ni oll. Gal. 3. 9.

*G.—Pwy ymdrechodd gyda Duw?*

A.—Jacob.

Gen. 32. 24. A Jacob a adawyd ei hunan; yna yr ymdrechodd gwr âg ef nes codi y wawr.

*G.—Beth fu ei enw ef wed'yn?*

A.—Israel.

Gen. 32. 28. Yntau a ddywedodd, Mwyach ni elwir dy enw di Jacob, ond Israel: oblegid cefaist nerth gyd â Duw fel tywysog, a chyd â dynion, ac a orchfygaist.

*G.—Pa sawl mab oedd i Jacob?*

A.—Deuddeg.

Gen. 35. 22. Yna meibion Jacob oeddynt ddeuddeg.



*G.—Pwy oedd y dyn llarieiddiaf?*

A.—Moses.

Num. 12. 3. A'r gwr Moses ydoedd larieiddiaf o'r holl ddynion oedd ar wyneb y ddaear.

*G.—Pwy oedd y dyn calon-galetaf?*

A.—Pharaoh.

Exod. 5. 2. A dywedodd Pharaoh, Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandâwn i ar ei lais, i ollwng Israel ymaith? Yr Arglwydd nid adwaen, ac Israel ni ollyngaf. Exod. 7. 3, 4.

*G.—Pwy farnodd Grist?*

A.—Pontius Pilate.

Mat. 27. 2; 26. Ac wedi iddynt ei rwymo, hwy a'i dygasant ef ymaith, ac a'i traddodasant ef i Pontius Pilate y rhaglaw.

*G.—Pwy groeshoeliodd Grist?*

A.—Yr Iuddewon.

Act. 2. 22, 23. Hwn, wedi ei roddi trwy derfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw, a gymerasoch chwi, a thrwy ddwylaw anwir â groeshoeliasoch, ac a laddasoch.

*G.—Pwy oedd y dysgybl anwyl?*

A.—Ioan.

Ioan 21. 20, 24. A Phetr a drôdd, ac a welodd y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, yn canlyn (yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swper.)

*G.—O bwy y bwriodd Crist allan gythreuliaid?*

A.—O Mair Magdalen.

Marc 16. 9. A'r Iesu wedi adgyfodi y bore y dydd cyntaf o'r wythnos, a ymddangosodd yn gyntaf i Mair Magdalen, o'r hon y bwriasai efe allan saith o gythreuliaid.

*G.—Pwy adawodd Grist o gariad at y byd?*

A.—Demas.

2 Tim. 4. 10. Canys Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presenol, ac a aeth ymaith i Thessalonica.

## PENNOD X.

*G.—Pwy ysgrifenodd yr Ysgrythyrau?*

A.—Dynion sanctaidd Duw.

2 Pedr 1. 21. Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt broffwydoliaeth: eithr dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.

*G.—Pa sawl rhan yw y Bibl?*

A.—Dwy.

Gal. 4. 24. Yr hyn bethau ydynt mewn alegori: canys y rhai hyn yw y ddau destament; un yn ddïau o fynydd Sina, yn cenhedlu i gaethiwed, yr hon yw Agar.

*G.—Pa rai ydynt?*

A.—Yr Hen Destament a'r Newydd.

2 Cor. 3. 14, 16. Eithr dallwyd eu meddyliau hwynt; canys hyd y dydd heddyw y mae yr un gorchudd, wrth ddarllen yn yr hen destament, yn aros heb ei ddatguddio; yr hwn yng Nghrist a ddilëir.

*G.—Pwy gasglodd lyfrau yr Hen Dastament yn un llyfr?*

A.—Ezra yr Offeiriad.

Ezra 7. 11, 12. Artaxerxes, brenin y brenhinoedd, at Ezra yr offeiriad, ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd, perffaith dangnefedd, a'r amser a'r amser.



*G.—Pwy gasglodd lyfrau y Testament Newydd yn un llyfr?*

A.—Ioan y Difeinydd.

Ioan 21. 24. Hwn yw'r disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn, ac a ysgrifenodd y pethau hyn; ac ni a wyddom fod ei dystiolaeth ef yn wir. Dat. 22. 18, 19.

*G.—Beth yw Bedydd?*

A.—Golchi â dwfr yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Act. 10. 10, 47. A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniasant yr Ysbryd Glân, fel ninau? Mat. 28. 19.

*G.—Beth mae hyn yn arwyddo?*

A.—Y mae yn arwyddo ein golchi oddiwrth bechod.

Act. 22. 16. Ac yr awrhon beth yr wyt ti yn ei aros? cyfod, bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar enw yr Arglwydd. 1 Pedr 3. 21.

*G.—Beth yw Swpper yr Arglwydd?*

A.—Bwyta bara ac yfed gwin, yn goffadwriaeth o farwolaeth Crist.

Luc 22. 19. Ac wedi iddo gymeryd bara, a rhoddi diolch, efe a'i torodd, ac a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Hwn yw fy nghorff, yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf.

*G.—Beth mae y bara yn arwyddo?*

A.—Corff Crist.

1 Cor. 11. 23, 24. Ac wedi iddo ddiolch, efe a'i torodd, ac a ddywedodd, Cymerwch, bwytêwch; hwn yw fy nghorff, yr hwn a dorir trosoch; gwnewch hyn er coffa am danaf.

*G.—Beth mae y gwin yn arwyddo?*

A.—Gwaed Crist.

1 Cor. 11. 25. Yr un modd efe a gymerodd y cwpan, wedi swperu, gan ddywedyd, Y cwpan hwn yw y testament newydd yn fy ngwaed; gwnewch hyn, cynifer gwaith bynag yr yfoch, er coffa am danaf.

*G.—Pwy ydyw yr angylion?*

A.—Ysbrydion da.

Heb. 1. 13, 14. Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth.

*G.—Pwy ydyw y cythreuliaid?*

A.—Angylion drwg.

2 Pedr 2. 4. Canys onid arbedodd Duw yr angylion a bechasant, eithr eu taflu hwynt i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth.

*G.—Pwy ydyw y diafol?*

A.—Penaeth y cythreuliaid.

Mat. 9. 34. Ond y Phariseaid a ddywedasant, Trwy benaeth y cythreuliaid y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

*G.—Beth yw gwaith angylion da?*

A.—Addoli Duw, a gwasanaethu y saint.

Psalm 148. 2. Molwch ef, ei holl angylion: molwch ef, ei holl luoedd. Psalm 34. 7. Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt.



*G.—Beth yw gwaith y cythreuliaid?*

A.—Pechu a themtio dynion.

1 Ioan 3. 8. Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae; canys y mae diafol yn pechu o'r dechreuad. I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y datodai weithredoedd diafol. 1 Cor. 7. 5.

*G.—Beth ddaw o honynt yn y diwedd?*

A.—Fe'u bwrir oll i uffern.

Dat. 20. 10. A diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle y mae'r bwystfil a'r gau-broffwyd; a hwy a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd.

*G.—Pa bryd y daeth Iesu Grist i'r byd?*

A.—Yn nghyflawnder yr amser.

Gal. 4. 4. Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf.

*G.—Pwy a'i bedyddiodd ef?*

A.—Ioan Fedyddiwr.

Marc 1. 9. A bu yn y dyddiau hyny, ddyfod o'r Iesu o Nazareth yn Galilea, ac efe a fedyddiwyd gan Ioan yn yr Iorddonen.

*G.—Beth oedd ei oed pan ei bedyddiwyd?*

A.—Deng mlwydd ar hugain.

Luc 3. 23. A'r Iesu ei hun oedd yn nghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed, mab (fel y tybid) i Joseph, fab Eli.

*G.—Pa sawl dysgybl oedd ganddo?*

A.—Deuddeg.

Luc 6. 13. A phan aeth hi yn ddydd, efe a alwodd ato ei ddysgyblion: ac o honynt efe a etholodd ddeuddeg, y rhai hefyd a enwodd efe yn Apostolion.

*G.—Pa waith roddodd Crist iddynt?*

A.—Pregethu yr efengyl.

Marc 3. 14. Ac efe a ordeiniodd ddeuddeg fel y byddent gyd âg ef, ac fel y danfonai efe hwynt i bregethu.

*G.—Beth yw yr efengyl?*

A.—Newydd da am ddyfodiad Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid.

Luc 2. 10. 11. A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch: canys wele yr wyf fi yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl.

*G.—Ai pechaduriaid ydym ni?*

A.—Ië.

Rhuf. 3. 23. Oblegid pawb a bechasant, ac yuynt yn ol am ogoniant Duw.

*G.—A glywsom ni bregethu yr efengyl?*

A.—Do.

Rhuf. 10. 18. Eithr meddaf, Oni chlywsant hwy? Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu swn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd. Heb. 4. 2.



*G.—Beth a ddylem ni wneyd o'r efengyl?*

A.—Ei chredu a'i derbyn.

Marc 1. 15. A dywedyd, yr amser a gyflawnwyd, a theyrnas Dduw a nesâodd: edifarhewch, a chredwch yr efengyl.

*G.—Beth yw effaith credu yr efengyl?*

A.—Llawenydd mawr a chariad at Grist.

Gal. 5. 22. Eithr ffrwyth yr Ysbryd yw, Cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest.

*G.—Beth yw effaith cariad at Grist?*

A.—Cadw ei orchymynion.

Ioan 14. 21. Yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn sydd yn fy ngharu i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i: a minau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo. 1 Ioan 5. 3.

**DIWEDD.**

ARGRAFFWYD DROS Y LLYFRWERTHWYR.

ENWAU A THREFN

## LLYFRAU YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD,

A

*RHIFEDI PENNODAU POB LLYFR.*

*Llyfrau yr Hen Destament.*

| | PEN. | | PEN. |
|---|---|---|---|
| GENESIS | 50 | Pregethwr | 12 |
| Exodus | 40 | Caniad Solomon | 8 |
| Lefiticus | 27 | Esay | 66 |
| Numeri | 36 | Jeremiah | 52 |
| Deuteronomium | 34 | Galarnad Jeremiah | 5 |
| Josua | 24 | Ezeciel | 48 |
| Barnwyr | 21 | Daniel | 12 |
| Ruth | 4 | Hosea | 14 |
| I. Samuel | 31 | Joel | 3 |
| II. Samuel | 24 | Amos | 9 |
| I. Brenhinoedd | 22 | Obadïah | 1 |
| II. Brenhinoedd | 25 | Jonah | 4 |
| I. Cronicl | 29 | Micah | 7 |
| II. Cronicl | 36 | Nahum | 3 |
| Ezra | 10 | Habacuc | 3 |
| Nehemïah | 13 | Sephanïah | 3 |
| Esther | 10 | Haggai | 2 |
| Job | 42 | Zecharïah | 14 |
| Psalmau | 150 | Malachi | 4 |
| Diarhebion | 31 | | |

*Llyfrau y Testament Newydd.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| SANT MATTHEW | 28 | II. at y Thessaloniaid | 3 |
| Sant Marc | 16 | I. at Timotheus | 6 |
| Sant Luc | 24 | II. at Timotheus | 4 |
| Sant Ioan | 21 | At Titus | 3 |
| Actau yr Apostolion | 28 | At Philemon | 1 |
| Epistol St. Paul at y Rhufeiniaid | 16 | At yr Hebreaid | 13 |
| I. at y Corinthiaid | 16 | Epistol Iago | 5 |
| II. at y Corinthiaid | 13 | Epistol I. Pedr | 5 |
| At y Galatiaid | 6 | II. Epistol Pedr | 3 |
| At yr Ephesiaid | 6 | Epistol I. Ioan | 5 |
| At y Philippiaid | 4 | II. Epistol Ioan | 1 |
| At y Colossiaid | 4 | III. Epistol Ioan | 1 |
| I. at y Thessaloniaid | 5 | Epistol Judas | 1 |
| | | Datguddiad Ioan | 22 |

## Gweddi Foreuol.

NERTHA fi, O Arglwydd, i ystyried fy mod dan fawrion rwymau i fod yn ddiolchgar am diriondeb dy ragluniaeth tuag ataf. Mi a orweddais, ac a gysgais: canys Ti a'm cynheliaist. Ystyriaeth o'th fawr a'th barhaus ddaioni a fyddo yn fy nghymell y dydd heddyw i fod yn ymdrechgar i dy ogoneddu; a phan y delo diwedd dydd fy mywyd, derbyn fy ysbryd i freichiau dy drugaredd, wedi maddeu fy holl bechodau, er mwyn dy anwyl Fab Iesu Grist. *Amen.*

## Gweddi Brydnawnol.

MAWR glod a diolch fyddo i dy enw Di, O Arglwydd, am i Ti fy nghadw yn ddiangol rhag pob niweidiau y dydd a aeth heibio. Gwel fod yn dda i faddeu yr holl bechodau ag y bum yn euog o honynt. Dyro ddoethineb a nerth i fyw yn dy ofn; a'r fraint i gael marw yn dy heddwch, yn haeddiant cyfryngdod yr Arglwydd Iesu Grist. *Amen.*

BIBLIOTHEQUE QUIMPER DIOCESAINE

# LLYFRAU GWOBRWYON I BLANT.

**6ch. yr un. Llian Destlus. 6ch.**

***Mary Jones;*** neu Y Gymraes fechan heb yr un Beibl.

***Chwedlau yr Aelwyd.*** Wedi eu dethol er addysg a difyrwch y plant.

***Moes-lyfr;*** neu Gyfarwyddiadau ar y dull a'r modd i ymddwyn mewn pob amgylchiad.

***Y Cewri,*** a'r modd i ymladd â hwynt.

***Cusan am Gernod;*** casgliad o Hanesion i blant.

***Y Plentyn a'r Dyn;*** Hanesion Dyddorol.

***Yr Eneth Ddall;*** Hanesion Addysgiadol.

# CARDIAU GWOBRWYOL,

*Gyda Blodau, neu Adar, &c., Lliwiedig, ac Adnodau neu Emynau.*

**3c.** ***Briwsion Bwrdd y Brenin,*** dros 8 dwsin o Gardiau.

**4c.** ***Salmau Moliant,*** yn cynwys 24 o Gardiau.

**4c.** ***Emynau Mwyn i'r Plant,*** yn cynwys 30 o Gardiau.

**4c.** ***Addewidion Gras,*** yn cynwys 54 o Gardiau

**6c.** ***Deuddeg o Gardiau,*** gyda Darluniau ac Adnodau.

Cyhoeddedig gan HUGHES & SON, Wrexham.

Diocèse de Quimper & Léon
Document numérisé en 2015